

Pennaeth Addysg Head of Education

Arwyn Thomas

Gofynnwch am/Ask for: **Arwyn Thomas**
☎ (01286) 679467 Ein Cyf / Our Ref: **AT/AAS**
📄 (01286) 677347 Eich Cyf / Your Ref:
✉ arwynthomas@gwynedd.llyw.cymru

21 Hydref 2016

At Benaethiaid Ysgolion Gwynedd

Annwyll Oll

Par: Sesiynau Galw Heibio – Egwyddorion Gwynedd

Nod Cyngor Gwynedd ydi sicrhau bod holl ysgolion y sir yn arfogi plant a phobl ifanc i gyflawni'r safonau uchaf posib ac i adnabod ffyrdd creadigol o warchod addysg mewn cymunedau gwledig.

Ar hyn o bryd, mae ansawdd addysg ysgolion Gwynedd yn dda iawn, ond mae penaethiaid ysgolion ac arbenigwyr addysg annibynnol wedi adnabod yr angen i ddatblygu ffyrdd newydd ac arloesol o weithio i sicrhau bod y llwyddiant presennol yn parhau. Maent wedi datgan yn glir fod risg sylweddol i safonau addysg yn ysgolion Gwynedd dros y blynyddoedd nesaf os nad oes rhai newidiadau yn cael eu gwneud i'r model presennol.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi trafod a gwrando yn ofalus ar benaethiaid ysgolion Gwynedd. Mae'r trafodaethau yma wedi bod yn hynod gynhyrchiol ac yn sail ar gyfer llunio egwyddorion newydd cychwynnol i amddiffyn safonau addysg ac i symud tua'r nod o sicrhau bod pob plentyn yn y sir yn derbyn addysg ardderchog a fydd yn eu galluogi i fyw a ffynnu'n lleol.

Mae Cyngor Gwynedd yn awyddus i ddatblygu egwyddorion ar y cyd gyda'r proffesiwn, llywodraethwyr a rhieni fel y gallwn symud ymlaen gyda'n gilydd. O ganlyniad, bydd cyfres o sesiynau galw-heibio yn cael eu cynnal ar draws Gwynedd dros yr wythnosau nesaf ar gyfer llywodraethwyr, rhieni a'r gymuned yn ehangach er mwyn bod yn rhan o'r broses o ddatblygu egwyddorion newydd ar gyfer ysgolion Gwynedd:

Dyddiad	Amser	Lleoliad
07/11/2016	3pm – 6pm	Canolfan Hamdden Plas Ffrancon, Bethesda
09/11/2016	3pm – 6pm	Capel Berea Newydd, Bangor
14/11/2016	4pm – 7pm	Ysgol Brynrefail, Llanrug
16/11/2016	3pm – 6pm	Ysgol Dyffryn Nantlle, Pen-y-groes
18/11/2016	3pm – 6pm	Canolfan Hamdden Arfon, Caernarfon
21/11/2016	3pm – 6pm	Canolfan Hamdden Penllyn, Y Bala
23/11/2016	3pm – 6pm	Canolfan Hamdden Bro Ffestiniog, Blaenau Ffestiniog
28/11/2016	3pm – 6pm	Canolfan Hamdden Glaslyn, Porthmadog

Swyddfa'r Cyngor
Caernarfon
Gwynedd LL55 1SH
01766 771000
www.gwynedd.llyw.cymru

30/11/2016	3pm – 6pm	Ysgol Ardudwy, Harlech
05/12/2016	3pm – 6pm	Canolfan Hamdden Glan Wnion, Dolgellau
06/12/2016	3pm – 6pm	Ysgol Glan y Môr, Pwllheli
7/12/2016	3pm – 6pm	Canolfan Hamdden Bro Dysynni, Tywyn
14/12/2016	3pm – 6pm	Canolfan Fenter Congl Meinciau, Botwnnog

Bydd cyfnod yr ymgynghoriad cyhoeddus yn parhau hyd dymor y gwanwyn 2017 ac yn bwydo maes o law i weledigaeth newydd ar gyfer y gyfundrefn addysg yng Ngwynedd.

Yn gywir

Arwyn Thomas

Arwyn Thomas
Pennaeth Addysg